

## Y SENEDD

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.00 ar 12 IONAWR 2021, dros Zoom.**

Aelodau â phleidlais: Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Yr Athro Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Gwyddorau'r Ddaear a Bywyd); Yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol); Yr Athro Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi); Yr Athro Qiang Shen, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Busnes a Gwyddorau Ffisegol); Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr); Yr Athro Hazel Davey; Mr Prysor Davies; Yr Athro Iain Donnison; Ms Mared Edwards, Llywydd UMCA; Dr Gwion Evans; Dr Patrick Finney; Dr Gabor Gelleri, Dr Sarah Higgins; Dr Aloysius Igboekwu; Mr Penri James, Cadeirydd Cangen PA y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Dr Alex Mangold; Ms Elizabeth Manners, Swyddog Materion Academaidd UMAber; Dr Louise Marshall; Yr Athro Robert Meyrick; Mr John Morgan; Mr David Moyle; Dr Heather Norris; Ms Sabina O'Donoghue, Llywydd UMAberystwyth; Yr Athro Eleri Pryse; Yr Athro Phillipp Schofield.

Aelodau heb bleidlais: Dr Andrew Davies; a Dr Anoush Simon.

Yn gweinyddu: Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol; Ms Emma Williams, Cofrestrydd Academaidd; a Ms Kath Williams, Ysgrifennydd Dros Dro'r Brifysgol.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Yr Athro Simon Banham; Yr Athro Simon Cox; Ms Rachael Davey, Mr Tim Davies, Pennaeth Gwasanaethau Gwybodaeth; Mr David Moyle; Ms Sarah Wydall, a Mrs Jean Jones.

### **28. MATERION A GODWYD GAN YR IS-GANGHELLOR**

#### 1. Croeso

1. Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol, a Ms Kath Williams, Ysgrifennydd Dros Dro'r Brifysgol.

### **29. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

### **30. AROLWG GWELLA ANSAWDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Alan Macmillan, Dirprwy Gofrestrydd Uwchraddedigion a'r Arolwg Ansawdd (SEN2122-039)

NODWYD

1. Cynullwyd cyfarfod arbennig o'r Senedd i dderbyn drafft o'r Arolwg Gwella Ansawdd (yr Arolwg) – Dadansoddiad Hunan-Werthuso, sy'n un o'r dogfennau allweddol i'w cyflwyno i'r adolygiad ansawdd sefydliadol y bwriedir ei gynnal ym mis Ebrill 2022.
2. Roedd y ddogfen, fel y'i derbyniwyd, wedi'i diwygio'n rhannol yn dilyn adborth gan Weithrediaeth y Brifysgol a'r Gweithgor sy'n goruchwylio paratodau'r arolwg, yn ogystal ag ymgynghorydd allanol.
3. Roedd y ddogfen wedi'i dosbarthu trwy e-bost i'r Bwrdd Academaidd ar ôl ei dosbarthu i aelodau'r Senedd. Gofynnwyd i'r Senedd ystyried y drafft a gwneud sylwadau cyn ei gymeradwyo'n derfynol ac mewn pryd ar gyfer y dyddiad cau i gyflwyno, sef 2 Chwefror 2022. Gwahoddwyd ymateb ar ffurf sylwadau o gadarnhad, cymeradwyaeth neu bryderon ynglŷn â'r trefniadau Sicrhau Ansawdd; gwahoddwyd ymateb yn arbennig ynghylch safonau graddau, cymorth i fyfyrwyr, a llais y myfyrwyr.
4. Gan gydnabod y byddai rhywfaint o olygu ar y manylion yn y ddogfen derfynol, nodwyd pwyntiau i'w hychwanegu neu i'w pwysleisio ymhellach. Roedd y rhain yn cynnwys ymhelaethu ar ddarpariaeth y Ganolfan Saesneg Ryngwladol. Ymhlith y diwygiadau pellach a awgrymwyd roedd pwysleisio arwyddocâd y Rhaglenni Hyfforddiant Doethurool a'r trefniadau cydweithrediadol cysylltiedig; llwyddiant ymateb y Brifysgol i Covid-19 ac addasu i drefn o addysgu cyfunol; naratif ynghylch ymroddiad y Brifysgol i gynaliadwyedd a dad-garboneiddio; a phwysleisio'r broses sy'n arwain at ymdriniaeth a goruchwyliaeth fwy cadarn ar y ddarpariaeth gydweithrediadol.
5. Ni chynigiwyd unrhyw newidiadau i'r adran sy'n cwmpasu'r trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academaidd.
6. Awgrymodd yr Aelodau rhoi mwy o bwyslais ar y cynnydd a wnaed ym maes y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a thynnu sylw at natur gadarnhaol y berthynas â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Nodwyd hefyd y byddai deunydd ychwanegol yn cael ei ddarparu yn seiliedig ar y strategaeth cyfrwng Cymraeg arfaethedig ar gyfer dysgu ac addysgu, hyfforddiant i staff a myfyrwyr cyfrwng Cymraeg.  
[**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor y Gyfadrn, Cyfadrn y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol a'r Dirprwy Is-Ganghellor sy'n gyfrifol am ddarpariaeth academaidd cyfrwng Cymraeg].
7. Awgrymodd yr aelodau y dylid gwirio ymarferoldeb llwyfannau ar-lein a ddatblygwyd ar gyfer prosesau dilysu.
8. Cadarnhaodd Llywydd UMCA a Llywydd UMAber nad oedd ganddynt unrhyw awgrymiadau pellach i'w gwneud a'u bod yn fodlon â'r ffordd yr oedd fframwaith cymorth myfyrwyr a dulliau i sicrhau clywed llais y myfyrwyr wedi'u disgrifio yn y ddogfen. Nodwyd hefyd y byddai Undeb y Myfyrwyr yn cyflwyno dogfen ar wahân yn rhan o'r un adolygiad.
9. Rhestrwyd y meysydd i'w canmol yn y ddogfen fel a ganlyn: partneriaethau a chydweithrediaid; yr ymateb i Covid-19; cymorth dysgu a TG; gweithdrefnau i wrando ar lais y myfyriwr; effeithiolrwydd strwythurau'r Brifysgol a strwythurau'n dilyn y Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd.

#### **PENDERFYNWYD**

10. Cymeradwyo'r ddogfen yn ffurfiol yn amodol ar olygiadau terfynol.